**Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar**
Strategaeth ar gyfer Gorllewin Cymru

Diweddarwyd Ebrill 2026

# ein strategaeth



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Pembrokeshire County Council
GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

## Gwasanaethau rhagorol ar bob cam

Yn seiliedig ar sefyllfa bresennol ein gwasanaeth a'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar, nod ein strategaeth ar gyfer 2026-2030 yw cyflawni'r canlynol:

### Ymgysylltu cadarnhaol/ymyrraeth gynnar gyda theuluoedd yn ystod beichiogrwydd a chamau cynnar rhianta

Sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn darparu cymorth i baratoi teuluoedd ar gyfer bod yn rhieni ac yn cynnig cymorth cyn gynted â phosibl.

### Ymgysylltu cadarnhaol â theuluoedd yn ystod y Blynyddoedd Cynnar

Sicrhau bod ein hanghenion teulu wrth wraidd gwasanaethau ar y cyd, fel bod teuluoedd yn cael mynediad i'r cymorth cywir ar yr adeg iawn.

### Pontio cadarnhaol o ofal plant i addysg y Blynyddoedd Cynnar

Sicrhau proses bontio hwylus i bob plentyn a rhiant o leoliadau cyn-ysgol i addysg y blynyddoedd cynnar.



## 1. Integreiddio ein gwasanaethau

**Mae angen i ni wneud hyn am y rhesymau canlynol:**

- Mae gweithio seilo yn creu rhwystrau rhwng gwasanaethau, a bylchau y gall teuluoedd lithro rhyngddyn nhw
- Rydyn ni'n gwybod bod teuluoedd yn cael gwell gofal pan fydd gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd
- Mae adnoddau dan bwysau; trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn osgoi dyblygu, lleihau gwastraff ac adeiladu ar waith ein gilydd

**Mae angen i ni gael y canlynol:**

- Penderfyniadau a rennir ar sail gwybodaeth a rennir
- Systemau ar gyfer cydweithio rhwng awdurdodau lleol, iechyd a'r trydydd sector
- Dull seiliedig ar le o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys timau'r Blynyddoedd Cynnar wedi'u lleoli ar y cyd lle bo'n briodol
- Perthnasoedd mwy cadarnhaol rhwng grwpiau proffesiynol
- Gweithlu wedi'i ysgogi a'i rymuso i weithio ar draws ffiniau gwasanaethau
- Gweithlu sy'n teimlo fel un tîm, gan dynnu at ei gilydd ar gyfer yr un nodau

**Byddwn yn cyflawni hyn drwy:**

- Sefydlu mwy o dimau cyd-leoli ar draws y rhanbarth
- Bwrw golwg ar opsiynau ar gyfer cyd-gomisiynu
- Dysgu o werthusiadau gwasanaeth
- Helpu gweithwyr proffesiynol i gasglu adborth gan deuluoedd, fel y gellir ei ddefnyddio mewn gweithgareddau cynllunio a chyd-ddylunio gwasanaeth yn y dyfodol
- Datblygu cynnig hyfforddiant sylfaenol cyffredin ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar

## 2. Cynllunio gwasanaeth yn seiliedig ar bobl

**Mae angen i ni wneud hyn am y rhesymau canlynol:**

- Rydym am gynnig gwasanaethau hygyrch y mae teuluoedd am eu defnyddio
- Rydyn ni eisiau cynnig gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â'r ystod amrywiol o anghenion yn ein cymunedau, gan gynnwys y rhai nad yw eu lleisiau yn cael eu clywed yn aml
- Nid ydyn ni'n gwybod digon am anghenion ein holl ddefnyddwyr gwasanaeth, ac nid ydyn ni'n cydnabod pa mor wahanol yw'r anghenion hyn, na sut maen nhw'n newid dros amser
- Gall teuluoedd deimlo nad ydyn nhw'n cael cefnogaeth pan nad yw gwasanaethau yn adeiladu ar sail eu cryfderau yn ogystal â'u hanghenion

**Mae angen i ni:**

- Casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth fel y gallwn weld ein gwasanaethau a'n gweithlu trwy lygaid y teuluoedd sy'n dibynnu arnyn nhw
- Datblygu sgiliau gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar, fel eu bod wedi'u paratoi'n well i gydnabod cryfderau teuluol a gwrando ar anghenion teuluol
- Gwasanaethau a arweinir ac a gomisiynir gan y gymuned
- Nodi a chael gwared ar rwystrau i fynediad i wasanaethau, e.e. drwy sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio'n well ar draws ffiniau awdurdodau lleol

**Byddwn yn cyflawni hyn drwy:**

- Ymgysylltu'n rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth
- Blaenoriaethu hyfforddiant a datblygu cyd-ddylunio, i helpu gweithwyr proffesiynol i gynrychioli lleisiau teuluoedd
- Cynyddu cydweithredu rhanbarthol ac integreiddio gwasanaeth
- Hyrwyddo buddsoddiad mewn gwasanaethau a arweinir gan y gymuned

## 3. Datblygu seilwaith a systemau technoleg i alluogi cydweithio

**Mae angen hyn arnom oherwydd:**

- Nid oes gan weithwyr proffesiynol yn y gwasanaeth fynediad at wybodaeth gyfredol am deuluoedd, sy'n golygu bod yn rhaid i aelodau o'r teulu ailadrodd hanes eu hachosion yn gyson ym mhob cyfarfod ac ymgynghoriad
- Yn aml nid oes iaith gyffredin i ddisgrifio'r un pethau rhwng gwahanol sefydliadau a phroffesiynau
- Ni all staff mewn gwahanol awdurdodau lleol, gwasanaethau a phroffesiynau rannu gwybodaeth yn hawdd ac yn ddiogel ar draws ffiniau sefydliadol
- Gall plant lithro drwy'r rhwyd pan fydd atgyfeiriadau yn anghyflawn neu'n cael eu gohirio, oherwydd rhwystrau system eraill
- Hoffen ni wella ein gwaith o fonitro targedau gwasanaeth a sicrhau ei bod hi'n hawdd olrhain canlyniadau i blant unigol ac ar gyfer ein poblogaeth Blynyddoedd Cynnar

**Mae angen i ni gael:**

- Ffyrdd i weithwyr proffesiynol yn y gwasanaeth ledled y rhanbarth allu cael mynediad, diweddaru a rhannugwybodaeth deuluol yn hawdd, o'r ddyfais maen nhw'n ei defnyddio eisoes ac o'r man lle maen nhw eisoes yn gwneud eu gwaith (sef, os ydyn nhw'n fydwraig, yn aml ar y ffordd)
- Safonau cytunedig ar gyfer casglu, storio a chael mynediad at ddata
- Rhoi gwybod am ddangosyddion lefel poblogaeth yn awtomatig

**Byddwn yn cyflawni hyn drwy:**

- Sicrhau bod lleisiau defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd bopeth a wnawn (trwy roi mwy o bwyslais ar gasglu adborth a'i ddefnyddio i wella gwasanaethau)
- Parhau i adeiladu sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi buddsoddiad mewn TG a rennir, a lobïo i'r newid hwnnw gael ei flaenoriaethu
- Parhau i gyflwyno'r achos dros offer sy'n caniatáu i staff awgrymu newidiadau a gwelliannau

## 4. Datblygu ein gweithlu

**Mae angen i ni wneud hyn am y rhesymau canlynol:**

- Nid yw teuluoedd bob amser yn cael y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw, oherwydd diffyg staff.
- Mae staff ym maes iechyd, gofal ac addysg yn brysur iawn a gall yr amgylchedd gwaith fod yn straen.
- Nid oes iaith gyffredin i ddisgrifio'r un pethau rhwng gwahanol sefydliadau a phroffesiynau.
- Nid yw pob cydweithiwr wedi cael hyfforddiant ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Mae angen i ni:**

- Denu a hyfforddi gweithwyr newydd a gweithwyr sy'n dychwelyd i'r gweithlu Blynyddoedd Cynnar
- Sicrhau bod cydweithwyr yn hapusach, yn fwy hyderus ac o dan lai o straen
- Sicrhau bod iaith gyffredin yn cael ei defnyddio yn eang a ffyrdd cyffredin o weithio
- Cael cyfleoedd hyfforddi ar draws gwasanaethau, yn enwedig mewn gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Gwybod am sgiliau y gellir eu trosglwyddo rhwng gwasanaethau a phroffesiynau
- Cael llwybrau gyrfa cliriach i weithwyr y Blynyddoedd Cynnar
- Sicrhau mwy o dimau amlddisgyblaethol

**Byddwn yn cyflawni hyn drwy:**

- Cyflwyno'r achos dros fuddsoddi mewn tyfu'r tîm, gan gynnwys marchnata, recriwtio a hyfforddiant priodol
- Meithrin cysylltiadau agosach ag ysgolion, colegau a gwasanaethau gyrfaoedd, i hyrwyddo swyddi a lleoliadau profiad gwaith yn y sector
- Datblygu cynnig hyfforddiant sylfaenol cyffredin ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol Blynyddoedd Cynnar
- Datblygu cynlluniau dilyniant gyrfa clir, gan gynnwys datblygiad personol ac opsiynau hyfforddi
- Bwrw golwg ar sut y gallen ni fuddsoddi mewn rolau ar draws ein hawdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd sydd â chyfrifoldeb am gyhoeddi a chynnal y wybodaeth honno
- Ymgymryd â gwaith mapio/adolygu i gael gwell dealltwriaeth o lwybrau cyfredol
- Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn fwy hyderus i gyfeirio teuluoedd at wasanaethau gwybodaeth

## 5. Darparu gwybodaeth hygyrch

**Mae angen i ni wneud hyn am y rhesymau canlynol:**

- Mae teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn cael trafferth dod o hyd i wybodaeth glir am y gwasanaethau sydd ar gael
- Nid yw teuluoedd bob amser yn gwybod ble i droi
- Nid yw gweithwyr proffesiynol bob tro yn gwybod am y broses gyfeirio cywir
- Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn aml yn dameidiog; os nad ydych eisoes yn gwybod ble i edrych, mae'n anodd dod o hyd i'r wybodaeth

**Mae angen i ni gael y canlynol:**

- Gwybodaeth glir, hygyrch, gynhwysfawr a syml mewn un lle
- Gwybodaeth ar-lein sy'n dda ac yn hawdd i'w defnyddio
- Y gallu i weithwyr proffesiynol olygu neu anodi gwybodaeth amdano, yn gyflym ac yn hawdd
- Gwybodaeth fwy eang am lwybrau gofal, ac opsiynau ar gyfer atgyfeirio; os yw gweithwyr proffesiynol yn gwybod mwy am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, byddan nhw yn fwy tebygol o'i awgrymu i deuluoedd

**Byddwn yn cyflawni hyn drwy:**

- Bwrw golwg ar sut y gallen ni fuddsoddi mewn rolau ar draws ein hawdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd sydd â chyfrifoldeb am gyhoeddi a chynnal y wybodaeth honno
- Ymgymryd â gwaith mapio/adolygu i gael gwell dealltwriaeth o lwybrau cyfredol
- Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn fwy hyderus i gyfeirio teuluoedd at wasanaethau gwybodaeth